# Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol 4 Mawrth 2021, 12-13.30

# Hosbisau GRhG a Gofal Lliniarol 4 Mawrth 2021, 12-13.30

## Cyd-lunio argymhellion i gloi ein hymchwiliad:

## Pa rôl y gall rhaglen Cymru Garedig Llywodraeth Cymru ei chael wrth ddatblygu gallu a gwytnwch mewn cymunedau drwy'r cyfnod Covid-19 a thu hwnt?

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AS (Cadeirydd) | Rhun ap Iorwerth AS |
| Darren Millar AS | |

| | |
|---|---|
| Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith | Jonathan Ellis, Hospice UK |
| Carys Stevens, Law yn llaw, Bwrdd Iechyd Hywel Dda | Julian Abel, Compassionate Communities y DU |
| Catrin Edwards, Hospice UK (Ysgrifennydd) | Kimberly Jones, Macmillan / ACE |
| Chris Campbell, Canolfan Gymunedol Thornhill | Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori |
| Dan Steer, Together for Short Lives | Lesley Bethell, Cadeirydd Cymru Garedig |
| Dominic Carter, Hospice UK | Liz Andrews, Hosbis y Ddinas |
| Donna Humphrey, Tŷ Shalom | Lowri Griffiths, Marie Curie Cymru |
| Emily Harrop, MCRC, Prifysgol Caerdydd | Marika Hills, Macmillan |
| Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant | Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Fiona McDonald, Cymdeithas MS | Monica Reardon, Marie Curie |
| Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd | Pat Walters, Cyfeillwyr Coedpoeth |
| Helen Davies, Ymddiriedolaeth Bracken | Rahila Hamid, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) |
| Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn | Rini Jones, Hospice UK |
| Dr Idris Baker, Arweinydd Clinigol Cenedlaethol | Shabir Hussain, Cyngor Dinas Casnewydd |
| Janette Bourne, Gofal Galar Cruse Cymru | Thomas Davies, Macmillan Cymru |
| John Moss, Llywodraeth Cymru | Rob Jones, Tŷ Hafan |

### Ymddiheuriadau | Apologies

| | |
|---|---|
| Dr Dai Lloyd AS | Andrea Williams, Teuluoedd Covid-19 Cymru |
| Yr Athro Uzo Iwobi, RCC | |

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant, a Gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751549,
Elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112. TAW Rhif 731 304476.


## Croeso, cofnodion y cyfarfod diwethaf a diweddariadau penodol | Welcome, minutes from the previous meeting and significant updates

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol ar 20 Ionawr 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

- Cafwyd trafodaeth ar ofal lliniarol a phrofedigaeth drwy'r pandemig ar 3 Chwefror, o dan arweiniad Mark Isherwood AS. Yn ei ymateb i'r drafodaeth cyhoeddodd y Gweinidog y byddai £3 miliwn yn ychwanegol i gefnogi hosbisau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Disgwylir datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog yn fuan.
- Ysgrifennodd y Cadeirydd at Gadeirydd y Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol yn tynnu sylw at y dystiolaeth a gafodd y Grŵp Trawsbleidiol gan arweinwyr cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BAME) ynghylch pa mor anodd oedd i bobl o’r cymunedau hyn gael cefnogaeth mewn profedigaeth. Cafwyd ymateb adeiladol yn amlinellu bod anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys o fewn y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol.
- Mae dadl ar hosbisau plant, o dan arweiniad Mark Isherwood AS, i'w chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mawrth.

## Trafodaeth banel ar argymhellion drafft y Grŵp Trawsbleidiol | Panel discussion on CPG draft recommendations

- **Monica Reardon**, Marie Curie, Rheolydd Prosiect, Gwasanaeathau Gofal | Project Manager, Caring Services
- **Dr Idris Baker**, Cadeirydd Grwp Llywio Gofal Profedigaeth ac Arweinydd Clinigol Cenedlaethol | Chair of the National Bereavement Steering Group and National Clinical Lead
- **Andy Goldsmith**, Prif Weithredwr | CEO Ty Gobaith/Hope House
- **Lesley Bethell**, Cadeirydd Cymru Garedig | Chair of Compassionate Cymru



Croesawodd Monica Reardon (MR) y ffaith bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynnwys yn yr ymchwiliad hyd yma. Dylai Cymru Garedig ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfder drwy edrych ar y gymuned ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo.

Nododd Idris Baker (JIB) ein bod yn rhagweld y bydd pump o bobl mewn profedigaeth ar gyfer pob person sydd wedi marw. Mae profedigaethau yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at ymatebion mwy cymhleth o ran galar. Mae'r Grŵp Llywio Profedigaeth Cenedlaethol wedi clywed sut nad yw pobl o rai cymunedau ethnig bob amser wedi teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth. Bydd mynediad i bobl o gefndiroedd pobl ddu a phobl o leiafrifoedd ethnig (BAME) i gefnogaeth briodol mewn profedigaeth yn rhan o'r Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol.

Nododd Andy Goldsmith (AG), os ydym yn ystyried pobl ar ddiwedd oes yn unig yn y cyd-destun hwn, yna ni fydd plant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd a'u teuluoedd bob amser yn cael eu cynnwys. Mae lefel uchel o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd ymhlith plant o gefndiroedd BAME, yn enwedig cefndiroedd ethnig De Asiaidd, ond mae'r plant a'r teuluoedd hyn wedi'u tangynrychioli o ran gwasanaethau hosbis plant. Mae angen i ni ddeall y rhwystrau y mae'r teuluoedd hyn yn eu hwynebu, a chwalu'r rhwystrau hynny.

Bu Lesley Bethell (LB) yn eiriol dros raglen Cymru Garedig sy'n datblygu o'r gwaelod i fyny, yn ogystal ag o'r brig i lawr. Er nad yw hyn bob amser yn hawdd, cytunodd LB y dylai'r ffordd ymlaen fod yn seiliedig ar asedau. Mae hyn yn cynnwys gwneud cysylltiadau cynaliadwy â phobl a chymunedau.

Cyfeiriodd Mark Isherwood (MI) at ddull Cruse o wahodd gwirfoddolwyr o gymunedau amrywiol i ymuno â'u tîm.

Nododd Marika Hills (MH) rôl Macmillan wrth hwyluso ac ariannu gweithlu Cymru Garedig.

Nododd Chris Campbell (CC) fod gweithredu'r argymhellion yn allweddol. Er bod y dull o'r gwaelod i fyny yn hanfodol, rhaid i'r 'grŵp canol' o gynllunwyr ac arweinwyr lleol a rhanbarthol ddeall a defnyddio'r dull i gysylltu'r camau gweithredu cymunedol a'r arweiniad cenedlaethol.

MI: O ran dull 'seiliedig ar asedau' rydyn ni'n siarad am bobl mewn gwirionedd. Gall pobl hybu'r newid diwylliannol sydd ei angen.

MR: Rhaid i wasanaethau ffurfiol sy'n ymgysylltu â chymunedau wrando ac ymrwymo i wneud newidiadau.

## A2: Ei gwneud hi'n fusnes i bawb ofalu cyn marwolaeth ddisgwyliedig a thrwy profedigaeth

- Blaenoriaethu anghenion profedigaeth yn dilyn Covid-19
- Cysylltiadau cymunedol ehangach
- Gwella mynediad at ofal cyn-brofedigaeth
- Hyrwyddo'r angen am fynediad agored at wasanaethau profedigaeth

## R2: Making it everybody's business to care before an expected death and into bereavement

- Prioritise bereavement needs following Covid-19
- Wider community links
- Improve access to pre-bereavement care
- Promote the need for open access bereavement services




JIB: Bydd gweithwyr proffesiynol gofal mewn profedigaeth yn parhau i fod yn gyfrifol am ofal ond dylem gydnabod nad yw cryn dipyn o 'ofal profedigaeth' yn cael ei gydnabod yn ffurfiol yn y modd hwn. Mae hyn oherwydd bod profedigaeth yn effeithio ar gymunedau a bod cymunedau'n ymateb. Yn ystod y pandemig, mae rhagor o bobl yn profi sawl ffactor sy'n arwain at alar cymhleth, sy'n cynnwys euogrwydd ac unigedd. Gall gofal cyn profedigaeth, ar gyfer yr unigolyn a'i deulu, wella canlyniadau profedigaeth. Dylem gydnabod bod cael gofal diwedd oes da fel profiad 'cyn profedigaeth' yn bwysig oherwydd gwyddys bod hynny'n effeithio ar ganlyniadau o ran profiad dilynol anwyliaid o alar.

MR: dylai'r argymhelliad hwn gyfeirio'n benodol at rôl arweinwyr cymunedol o gymunedau amrywiol.


AG: Roedd yn croesawu'r cyfeiriad at y cyfnod cyn-brofedigaeth, a ddylai ymestyn i gynnwys cefnogaeth i frodyr a chwiorydd. Mae hosbisau plant yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau. Mae'r gefnogaeth ar gyfer y 'teulu'n ganolog', sef, goblygiadau hyn yw ein bod yn cynnig cefnogaeth bwrpasol yn seiliedig ar anghenion y teulu unigol. Gallai hyn gynnwys help fel cymorth gyda gwaith cartref neu dasgau ymarferol eraill. Mae teuluoedd yn aml yn nodi eu bod yn teimlo'n anweledig yn eu cymunedau, ac mae marwolaeth plentyn yn parhau'n destun tabŵ i raddau helaeth. Gall cymunedau, fodd bynnag, ddarparu cefnogaeth werthfawr i deuluoedd.

LB: Mae cefnogaeth cyn profedigaeth yn bwysicach nawr nag erioed o ystyried bod teuluoedd, gofalwyr a phobl sy'n marw wedi treulio 80-90% o'r chwe mis diwethaf i ffwrdd oddi wrth weithwyr proffesiynol. Yn aml mae stigma yn gysylltiedig â chael help. Mae angen i ni annog pobl i wneud y pethau cyffredin.

Julian Abel (JA): Rydyn ni'n meddwl am brofedigaeth fel gwasanaeth ond nid yw hynny'n wir bob amser. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu yn nodi pwysigrwydd cefnogaeth gymunedol ar gyfer ymateb i'r cynnydd anghenion mewn cysylltiad â phrofedigaeth yn sgîl y pandemig. Mae defnyddio dull sy'n seiliedig ar boblogaeth yn hanfodol.

- Catrin i ddosbarthu dogfen Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

JIB: Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'r fframwaith profedigaeth drafft, ond mae JIB yn cwestiynu a yw hyn wedi'i ddeall yn iawn.




AG: Mae tua 3,500 o blant â chyflyrau sy’n cyfyngu ar eu bywyd yng Nghymru, ac o'r rhain mae angen gofal lliniarol gweithredol ar 800 ohonynt. Mae effaith gofalu am blentyn â chyflwr o’r fath yn sylweddol, a bydd rhai plant yn profi sawl pennod ‘diwedd oes’. Dylem fyfyrio am y profiad cymdeithasol o ddarparu gofal. Mae teuluoedd yn darparu 95 y cant o ofal eu plentyn. Gwaethygwyd yr heriau sy'n gysylltiedig â hyn yn sgîl Covid-19 – mae’r ysgolion wedi cau, wardiau plant wedi'u hailosod, a chaewyd hosbisau dros dro ar gyfer seibiant a gynlluniwyd. Mae Covid wedi ein dysgu y gallwn weithredu’n rhithwir ond ateb dros dro yw hwn yn lle gofal wyneb yn wyneb. Mae angen gofal hefyd ar gyfer y teulu cyfan. Mae seibiant wedi'i gynllunio yn wasanaeth hanfodol i deuluoedd.


MR: Ni ddylem wneud rhagdybiaethau ynghylch faint o ofal a gaiff ei ddarparu gan deuluoedd neu a fydd yn cael ei ddarparu ganddynt, yn enwedig o ran gofalwyr sy’n bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Mae angen i ni ganolbwyntio ar gefnogi pobl, er mwyn iddynt gydnabod eu hunain fel gofalwyr.

LB: Unwaith eto, mae hyn yn gysylltiedig â'r stigma ynghylch gofyn am help. Rhaid inni wrando ar bobl.

MI: Mae Covid-19 wedi dwysáu’r broblem o ran cadw pellter oddi wrth deuluoedd estynedig a’n gallu i fanteisio ar gefnogaeth gymunedol.

JIB: Ni ddylem fod yn gwneud rhagdybiaethau am ofalwyr - mae hynny'n gyfystyr â pheidio â gwrando arnynt. Yn y gorffennol, efallai bod gweithwyr iechyd proffesiynol wedi ystyried teuluoedd yn ymweld mewn ysbytai fel tyrfa ormodol, ond mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi dysgu staff ysbytai am werth teuluoedd a gofalwyr a'r rolau penodol y maent yn eu cyflawni wrth gefnogi pobl sy'n derbyn gofal.

MI: Mae elfen o gyfochredd yma o ran rôl gofalwyr ac ymwelwyr â phobl mewn cartrefi gofal.




LB: Weithiau cyfeirir at sgyrsiau 'Yr hyn sy'n bwysig' fel 'gwneud penderfyniadau ar y cyd'. Ni ddylai'r rhain fod yn ddigwyddiadau unwaith yn unig ond yn ddigwyddiadau parhaus, ac sy'n newid, a dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn unrhyw Gynlluniau Gofal Ymlaen Llaw ffurfiol. Mae gan bob un ohonom, nid arbenigwyr yn unig, rôl wrth gynnal y sgyrsiau hyn. Dim ond cyfran fach o'r sgyrsiau hyn fydd yn cael eu cynnal gydag arbenigwyr; bydd y mwyafrif yn digwydd rhwng teuluoedd neu ofalwyr. Er bod gan bob un ohonom rôl yn hyn, nid yw marw yn rhywbeth yr ydym i gyd yn gwybod llawer amdano. Nid yw teuluoedd ychwaith bob amser yn gwybod sut i weithredu. Gall fod yn anodd gwneud addewidion i bobl sy'n marw ynglŷn â chyflawni eu dymuniadau, oherwydd ni allwn warantu y bydd y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt bob amser ar gael, neu y bydd yn addas ar eu cyfer.

MR: Roedd yn cytuno â'r dull model cymdeithasol, gan gynnwys gweithio gyda phobl nad ydyn nhw'n weithwyr proffesiynol.

AG: Mae sgyrsiau am farw a marwolaeth fod yn sgyrsiau'r gymdeithas yn ogystal ag yn sgyrsiau meddygol, ac felly y dylent fod. Gall fod yn gyfnod brawychus i deuluoedd ac mae angen bod yn hyderus i ofyn am gefnogaeth. Hefyd nid rhywbeth sy'n rhad nac am ddim yw cefnogaeth i bobl; mae angen buddsoddiad i ddarparu cefnogaeth. Mae Covid-19 wedi arwain at fod rhagor o wirfoddolwyr, ac mae cyfle i fanteisio ar hyn. Nawr yw'r amser i weithredu.

JIB: Mae'r cyfrifoldeb am gynnal sgyrsiau 'Yr hyn sy'n bwysig' yn nwylo 'y naill / a'r llall' yn hytrach na 'naill ai / neu', gweithwyr proffesiynol a chymunedau. Mae ar weithwyr proffesiynol angen cymunedau fel rhan o'r dull hwn o gynllunio ein gofal diwedd oes.

## Trafodaeth agored / Open discussion

Dechreuodd MI y drafodaeth ar berthnasedd dulliau gweithredu Cymunedau Caredig a'r rhaglen Cymru Garedig y tu hwnt i gwmpas gofal diwedd oes. Ymhlith y dulliau perthnasol eraill a ddylai ddod o dan yr ambarél hon mae cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia, a dulliau gweithredu sy'n gyfeillgar i awtistiaeth.

Cytunodd LB fod hwn yn ddull a ddylai fod yn agored i bawb ac o fudd i bawb. Mae hyn yn ymwneud â chysylltiadau yn y gymdeithas, a chefnogi pobl yn ein cymunedau i gysylltu â'i gilydd.

Nododd JA fod y dull hwn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r sector gofal diwedd oes. Mae'n ymwneud â methodoleg iechyd cyhoeddus, ac mae cyfle yng Nghymru i gynnwys pob cylch bywyd yn y dull gweithredu hwn.

Nododd AG y berthynas rhwng ansawdd bywyd ac ansawdd marwolaeth.

Carys Stevens: Yr hyn sy'n bwysig yw, sgyrsiau yw sylfaen prosiect Law yn Llaw yng Ngheredigion. Mae gwirfoddolwyr, hyd yn oed yn rhithwir fel ddigwyddodd drwy gydol y pandemig, yn dod â chyfoeth i fywydau pobl mewn wardiau ysbyty. Mae'n bosibl mai'r hyn sy'n bwysig i rai pobl, er enghraifft, yw bod gwirfoddolwr yn hwyluso person yn yr ysbyty i weld ei gi, yn rhithiol hyd yn oed.

Nododd MI y bydd llawer o wleidyddion yn derbyn negeseuon o bryder ynghylch sgyrsiau 'Yr hyn sy'n bwysig' mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

IM: Mae hosbisau'n cefnogi 'pob cymuned' - nid ydym yn rhannu pobl i adrannau'. Mae cyfeiriadau ar gyfer gofal mewn profedigaeth wedi cynyddu 40 y cant.

Daeth MI â'r drafodaeth ar yr argymhellion drafft i ben drwy nodi'r camau nesaf:

- Mireinio'r argymhellion]
- Dosbarthu adroddiad byr i gyfranwyr ac i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2021

## Myfyrio ar y Grŵp Trawsbleidiol yn ystod y Bumed Senedd | Reflecting on the CPG during the 5th Senedd

Nododd y Cadeirydd y byddai'r Grŵp Trawsbleidiol yn cau'n ffurfiol wrth i'r Senedd symud i'r cyfnod cyn yr etholiad ddiwedd mis Mawrth 2021.

Cofnododd Catrin Edwards ddiolchiadau gan Hospice UK, Hospices Cymru a chydweithwyr sydd â diddordeb yn y maes hosbisau a gofal lliniarol, i Mark Isherwood AS am ei gefnogaeth barhaus a'i waith sylweddol wrth gadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol, ac am iddo hyrwyddo'r achos yn y Senedd.

Awgrymodd MI y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol lunio Adroddiad Gwaddol i lywio gwaith yn nhymor y Senedd sydd i ddod yn y dyfodol.

- Catrin i ddrafftio Adroddiad Gwaddol.

## Unrhyw fater arall | Any other business

- Rhoddodd Lowri Griffiths, Marie Curie Cymru, wybod i'r Grŵp am yr ymgyrch Diwrnod o Fyfyrdod Cenedlaethol, a gaiff ei gynnal i nodi blwyddyn ers y cyfyngiadau cenedlaethol yn sgîl COVID-19 ar 23 Mawrth 2021.
    - CE i ddosbarthu deunyddiau ar y Diwrnod o Fyfyrdod Cenedlaethol i'r rhai sy'n bresennol.